# Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Cyngor Sir Ceredigion 2026

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

## Cynnwys


Cyflwyniad .... 2

Cefndir .... 3

Nodau'r Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi .... 3

Ceredigion – Proffil Demograffig .... 4

Arweinwyr cymunedol a grwpiau rhanddeiliaid .... 5

Dylanwadu ar benderfyniadau .... 6

Hyrwyddo ymwybyddiaeth o waith y Cyngor .... 7

Cwynion .... 7

Adnoddau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer ymgysylltu cymunedol .... 8

Gweithredu a Monitro .... 9

**Cynllun Gweithredu** .... 10



Awdur a gwasanaeth: CM, Polisi a Pherfformiad

Dyddiad cymeradwyo gan y Cabinet: 03/03/2026

Asesiad Effaith Integredig: 26/01/2026

Dyddiad cyhoeddi: 06/03/2026

## Cyflwyniad

Mae'n hanfodol bod Cyngor Sir Ceredigion yn annog ac yn galluogi pobl leol i gymryd rhan yn ein prosesau gwneud penderfyniadau. Mae ymgysylltu da yn gyfrifoldeb pawb sy'n gweithio i'r Cyngor. Mae'n broses ddwy ran – rydym yn gwrando ar safbwyntiau a barn aelodau'r cyhoedd ac rydym yn darparu gwybodaeth glir am swyddogaethau Cyngor Sir Ceredigion.

Mae ein hymrwymiad i ymgysylltu'n effeithiol wedi'i ategu gan ystod o ddeddfwriaeth gan gynnwys:

- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – rhaid i'r Cyngor annog cyfranogiad y cyhoedd yn ein prosesau gwneud penderfyniadau ac ymgynghori â phobl leol ynghylch y graddau y mae'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – rhaid i'r Cyngor gynnwys pobl sydd â budd mewn cyflawni'r nodau Llesiant Cenedlaethol.
- Mesur yr Iaith Gymraeg 2011 – rhaid i'r Cyngor ofyn i'r cyhoedd am eu barn ar yr effaith y bydd ein penderfyniadau'n ei chael ar y Gymraeg.
- Deddf Cydraddoldeb 2010 – rhaid i'r Cyngor gynnwys ac ymgysylltu â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

Cawn ein harwain gan 'Egwyddorion Gunning'. Mae'r rhain yn nodi'r disgwyliadau cyfreithiol o ran beth yw ymgynghori priodol a cheir phwyslais ar 'degwch'. Gellir defnyddio'r egwyddorion yn y llys i benderfynu a yw corff cyhoeddus wedi dangos tegwch yn ei ymarferion ymgysylltu, ymgynghoriadau a phrosesau gwneud penderfyniadau.

Mae Egwyddorion Gunning fel y ganlyn:

- Rhaid cynnal ymgynghoriad pan fydd y cynigion yn dal i fod ar gam ffurfiannol.
- Rhaid cyflwyno rhesymau digonol fel y gall pobl ystyried y mater dan sylw ac ymateb iddo mewn ffordd deallus.
- Rhaid rhoi digon o amser i bobl ystyried ac ymateb.
- Rhaid mynd ati mewn ffordd gydwybodol i ystyried canlyniadau’r ymgynghoriad cyn gwneud penderfyniad.

## Cefndir

Mae'r polisi hwn yn amlinellu ein dull corfforaethol o ymgysylltu â phobl yng Ngheredigion. Mae'n adeiladu ar y cynnydd a wnaethom ers ein polisi blaenorol a gymeradwywyd yn 2022.

Ers 2022, mae nifer y bobl sy'n dilyn ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol wedi cynyddu ac rydym wedi sefydlu ffordd y gall pobl wylio cyfarfodydd y Cyngor ar-lein yn ogystal ag wyneb yn wyneb. Rydym wedi sefydlu Panel Pobl Ceredigion ac wedi cyflwyno dull deinamig o gasglu adborth oddi wrth bobl sy'n cysylltu â ni trwy ein harolwg newydd ar wasanaeth Clic sy’n rhoi cyfle iddynt roi adborth. Rydym wedi datblygu ein defnydd o lwyfannau ymgysylltu ar-lein ac ar yr un pryd cynnal y defnydd o ddulliau nad ydynt yn ddigidol. Rydym wedi sefydlu system e-ddeisebu, a bydd hon ar gael ar ein gwefan cyn bo hir.

Rydym yn ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol pan fyddwn yn gwneud newidiadau i'n gwasanaethau ac yn datblygu polisi a strategaethau newydd. Rydym hefyd yn cynnal Asesiad Effaith Integredig. Mae ein Hasesiad Effaith Integredig yn ein helpu i ystyried y cyfraniad y bydd ein newidiadau arfaethedig yn ei wneud i'n Strategaeth Gorfforaethol, i 7 Nod Llesiant Cenedlaethol Cymru ac i'n Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Mae hyn hefyd yn sicrhau ein bod yn ystyried effaith unrhyw newidiadau ar bobl sy'n cael eu diogelu gan y Ddeddf Cydraddoldeb a’r effaith ar y Gymraeg.

Mae dadansoddiad o'r adborth o ymgynghoriadau cyhoeddus, Asesiad Effaith Integredig ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau i’r aelodau etholedig i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus.

Cynhaliodd Cyngor Sir Ceredigion asesiad sylfaenol ac ymgyrch ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod haf 2025 i helpu i ddatblygu'r polisi hwn.

## Nodau'r Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi

Nodau'r polisi hwn yw:


- **Cynyddu Tryloywder ac Adborth**
- **Gwella Cyfathrebu a Hyrwyddo**
- **Gwella Hygyrchedd a Chynhwysiant**
- **Symleiddio Deunyddiau Ymgysylltu**
- **Cefnogi Cynghorwyr i Ymgysylltu**

Mae ein cynllun gweithredu – Atodiad 1 – yn nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud i gyflawni'r nodau hyn.

## Ceredigion – Proffil Demograffig

Mae Ceredigion yn 1,900km² o ran maint ac mae'r sir yn cynnwys tir amaethyddol, rhostiroedd a choedwigoedd. Mae'r ardaloedd ucheldirol i'r dwyrain yn rhan o Fynyddoedd Cambria ac mae gan y sir dros 90 cilomedr o arfordir.

Mae gan Geredigion boblogaeth o 71,475. Os ydym yn dychmygu'r boblogaeth hon fel pentref o 100 o bobl, byddai'n cynnwys:



- 51 o fenywod a 49 o ddynion.
- 14 o blant 15 oed neu iau a 6 o bobl ifanc 16 i 19 oed.
- 54 o bobl rhwng 20 a 64 oed.
- 22 o bobl rhwng 65 ac 84 oed a 3 o bobl 85+ oed.
- 12 myfyriwr prifysgol (amcangyfrif yn seiliedig ar Ble mae myfyrwyr AU yn astudio? | HESA)
- 1 person y mae ei rywedd yn wahanol i'w rywedd geni. Byddai'n well gan 8 o bobl beidio â dweud wrthych beth yw eu hunaniaeth rhywedd.
- 5 o bobl sy'n hoyw, lesbiaidd, deurywiol, panrywiol, arywiol neu gwiar. Byddai'n well gan 10 o bobl beidio â dweud wrthych beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol.
- 4 o bobl o gefndiroedd ethnig nad ydynt yn wyn.
- 46 o Gristnogion, 2 o bobl o grefyddau eraill, 43 o bobl heb grefydd. Byddai'n well gan 8 o bobl beidio â dweud wrthych am eu credoau neu eu diffyg credoau.
- 45 o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, gan gynnwys 7 sy'n 65+ oed.
- 22 o bobl sy'n cael eu hystyried fel bobl anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb; byddai 9 o'r rhain yn cael anawsterau sylweddol gyda'u gweithgareddau bob dydd.
- 11 o bobl sy'n darparu gofal di-dâl i deulu neu ffrindiau.

*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Proffil Cyfrifiad 2021 ar gyfer ardaloedd yng Nghymru a Lloegr – Nomis (nomisweb.co.uk)*

Mae'r ciplun hwn yn tynnu sylw at amrywiaeth ein poblogaeth a phwysigrwydd ymgysylltu cynhwysol, yn enwedig ar gyfer grwpiau sydd wedi'u gwthio i'r ymylon a grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml.

## Arweinwyr cymunedol a grwpiau rhanddeiliaid

Rydym yn cydweithio â grwpiau rhanddeiliaid gwahanol sy'n hyrwyddo materion lleol. Mae'r grwpiau hyn wedi'u rhestru yn ein pecyn cymorth Ymgysylltu ac Ymgynghori ar gyfer staff er mwyn sicrhau eu bod yn cael diweddariadau amserol a'u bod yn gallu rhannu gwybodaeth o fewn eu cymuned o fudd.

- Cynghorau Tref a Chymuned (51 ar hyn o bryd; yn lleihau i 49 ym Mai 2027)
- Fforwm Anabledd Ceredigion
- Rhwydwaith Canolfannau Teuluoedd Ceredigion
- Fforwm Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog
- Clybiau Ffermwyr Ifanc
- Cyngor Ieuenctid Ceredigion
- Fforwm Mynediad Lleol
- Partneriaeth Natur Leol
- Cynghrair y Gofalwyr
- Darparwyr y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae
- Banciau Bwyd, Caffis Cymunedol a Mannau Croeso Cynnes
- Fforwm Oed Gyfeillgar
- Cymdeithas y Lonydd Gwyrdd

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi penodi 21 o Aelodau sy'n Eiriolwyr. Eu rôl yw nodi arferion da a heriau a hyrwyddo'r mater y maent yn eiriolwyr drostynt, o fewn y Cyngor ac yn y gymuned. Maent yn eiriolwyr dros yr achosion canlynol:

- 50+
- Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol
- Y Lluoedd Arfog
- Bioamrywiaeth
- Gofalwyr
- Plant a Phobl Ifanc
- Brwydro yn erbyn Tlodi
- Digidol
- Amrywiaeth
- Trais Domestig
- Cydraddoldeb
- Iechyd a Diogelwch
- Anableddau Dysgu
- Datblygu Aelodau
- Iechyd Meddwl
- Iechyd Cyhoeddus
- Diogelu
- Cynaliadwyedd
- Oed Gyfeillgar
- Menopos
- Llysgennad Heddwch

## Dylanwadu ar benderfyniadau

Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2025 mai dim ond 19% o oedolion yng Nghymru sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. Mae hyn yn dweud wrthym fod angen gwneud llawer o waith i sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u grymuso ac yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau yn lleol. Mae'r adran ganlynol yn nodi gweithgareddau ymgysylltu presennol Cyngor Sir Ceredigion.

Cyhoeddir manylion cyswllt holl Gynghorwyr Sir Ceredigion ar ein gwefan a'n gwasanaeth diogel 'Fy Nghyfrif'. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i bobl gysylltu â nhw'n uniongyrchol. Dangosodd Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol 2024 fod 83% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o holl gyfrifoldebau cynghorwyr lleol neu rai ohonynt a bod 70% o'r ymatebwyr yn gwybod pwy yw eu cynghorydd lleol.

Gall aelodau'r gymuned awgrymu pynciau i graffu arnynt. Mae'r broses wedi'i hamlinellu ar ein gwefan – [Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu – Cyngor Sir Ceredigion](). Fodd bynnag, mae llawer o'r pynciau a gynigir y tu allan i gylch gwaith pwyllgorau craffu.

Mae ein protocol deisebau wedi'i restru yn ein cyfansoddiad, ac rydym wedi sefydlu system e-ddeisebu (yn anweithredol ar hyn o bryd oherwydd problemau technegol).

Mae ein tudalen we Ymgysylltu ac Ymgynghori wedi'i gwella ac yn helpu trigolion i ddod o hyd i ymgynghoriadau ac olrhain cynnydd y mater sy'n destun ymgynghoriad. Cyflwynir adroddiadau dadansoddi ymgynghoriadau i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet i gefnogi'r broses gwneud penderfyniadau. Cyhoeddir penderfyniad y Cabinet ar ein tudalen we Ymgysylltu ac Ymgynghori – [Ymgyrchoedd ar gau – Cyngor Sir Ceredigion]()

Rydym yn anfon e-fwletinau ymgysylltu rheolaidd at bobl sydd wedi cofrestru i dderbyn y rhain ac rydym wedi sefydlu Panel Pobl Ceredigion.

Mae Panel Pobl yn grŵp o drigolion sy'n cymryd rhan mewn arolygon a chyfleoedd eraill i fynegi eu barn ar wasanaethau'r Cyngor. Gofynnir i Banel Pobl Ceredigion ymateb i 'arolygon cyflym' rheolaidd trwy gydol y flwyddyn. Fe'u gwahoddir i ymuno â grwpiau ffocws achlysurol i'n helpu i gasglu adborth ar faterion penodol.

Mae bod yn Gynghorydd Sir yn ffordd bwerus o ddylanwadu ar benderfyniadau. Cynhelir yr etholiadau Llywodraeth Leol nesaf ym Mai 2027. Er mwyn hysbysu darpar ymgeiswyr, rydym yn eu gwahodd i gyfarfodydd gyda'r Gwasanaethau Democrataidd ac wedi datblygu 'Canllaw i Ddarpar Ymgeiswyr'.

## Hyrwyddo ymwybyddiaeth o waith y Cyngor

Mae gwybodaeth am ein gwasanaethau, cynlluniau a strategaethau ynghyd â chofnodion y cyfarfodydd ar gael ar ein gwefan – Cyngor Sir Ceredigion.

Mae ein proses gwneud penderfyniadau wedi'i nodi yn ein cyfansoddiad. Caiff hwn ei adolygu'n rheolaidd a'i gyhoeddi ar ein gwefan, ynghyd â chanllaw iaith glir –y Cyfansoddiad Cyngor - Cyngor Sir Ceredigion.

Rydym yn gwneud defnydd da o'r cyfryngau cymdeithasol ac mae nifer y bobl sy'n ein dilyn yn cynyddu. Darperir hyfforddiant i gynghorwyr ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn modd effeithiol. Rydym wedi sefydlu e-gylchlythyr misol y gall pobl gofrestru i'w dderbyn a chael gwybodaeth am waith y Cyngor.

Er gwaethaf metrigau perfformiad cryf fel y rhai a nodwyd yn ein Proffil Perfformiad Lleol, adroddiad Hunanasesu ac Asesiad o Berfformiad gan Panel, mae canfyddiad y cyhoedd yn parhau i fod yn her. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r ffordd yr rydym yn rhoi adborth i'r cyhoedd a’r rhanddeiliaid ynglŷn â’r cynnydd yr ydym yn ei wneud.

Gall pobl wylio cyfarfodydd y Cyngor ar-lein neu fynd i’r cyfarfodydd yn adeiladau’r Cyngor. Rydym yn cyhoeddi blaenraglenni gwaith cyfarfodydd y Cabinet a’r Pwyllgorau Craffu ar ein gwefan ac rydym yn eu hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol. Cyhoeddir agenda a chofnodion cyfarfodydd ar ein gwefan.

Fodd bynnag, dangosodd Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol 2024 mai dim ond 49% o'r ymatebwyr sy'n ymwybodol y gall y cyhoedd fynychu cyfarfodydd Cyngor Ceredigion yn bersonol neu ar-lein.

Roedd yr Asesiad o Berfformiad gan Panel yn 2024 yn gadarnhaol ond tynnodd sylw at broblemau o ran cyfathrebu. Rydym yn adolygu ein polisïau mewnol ac erbyn hyn rydym yn cynnal dadansoddiad rheolaidd o rhyngweithio sy’n digwydd o ran postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, fideos ac e-gylchlythyrau corfforaethol. Defnyddir gwybodaeth o'r dadansoddiad hwn i lywio strategaethau'r dyfodol.

## Cwynion

Mae ein gweithdrefnau cwynion wedi'u hamlinellu ar ein gwefan: Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion – Cyngor Sir Ceredigion.

Dylai achwynwyr gael esboniadau clir o gasgliadau ymchwiliad a dylent gael gwybod am unrhyw newidiadau sy'n deillio o hynny.

Mae data am gwynion yn cael ei ddadansoddi a'i adrodd yn chwarterol i uwch arweinwyr. Cyflwynir adroddiadau ddwywaith y flwyddyn i aelodau'r Cabinet a'r

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae hyn yn galluogi penderfynwyr y Cyngor i adolygu'r wybodaeth yn rheolaidd wrth iddynt gynllunio a datblygu gwasanaethau'r Cyngor.

## Adnoddau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer ymgysylltu cymunedol

Mae gan wasanaethau'r Cyngor gapasiti amrywiol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned. Mae ein tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant (2 swyddog) yn darparu goruchwyliaeth gorfforaethol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r tîm yn cyflwyno adroddiad Ymgysylltu a Chyfranogi blynyddol i'r Pwyllgor Craffu perthnasol a'r Cabinet.

Ers 2022 mae wedi datblygu pecyn cymorth ar gyfer staff ac maent wedi darparu hyfforddiant i'r staff. Mae hyn wedi gwella ansawdd a chysondeb ein hymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori.

Mae'r tîm wedi gwella ein tudalen Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y wefan fel ei bod hi'n haws i'r cyhoedd olrhain cynnydd sydd wedi'i wneud o ran ein hymgynghoriadau ffurfiol. Mae'r tîm hefyd wedi diwygio a diweddaru ein teclyn Asesiad Effaith Integredig i gefnogi penderfyniadau'r Cabinet.

Mae'r tîm yn cefnogi ac yn cynghori holl wasanaethau'r Cyngor i sicrhau bod ein gwaith ymgynghori ac ymgysylltu yn bodloni gofynion cyfreithiol ac arferion gorau, gan gynnwys:

- Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc
- Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru
- Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru ar Strategaethau Cyfranogiad y Cyhoedd .

Mae ein tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn cael eu harwain gan Egwyddorion Gunning (y cyfeirir atynt uchod) ac Egwyddorion Brown.

## Egwyddorion Brown a 'Sylw Dyledus'

Mae "sylw dyledus" yn golygu bod rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried sut mae eu penderfyniadau a'u gweithredoedd yn effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig (megis oedran, anabledd, hil, rhyw, ac ati) cyn gwneud y penderfyniadau hynny. Nid ymarfer ticio blychau yn unig yw hwn – rhaid iddo rhoi ystyriaeth ddifrifol a gofalus i'r materion hyn.

**Egwyddorion Brown wedi'u hegluro**

Daw'r egwyddorion hyn o achos cyfreithiol (R (Brown) v Yr Ysgrifennydd Gwladol Gwaith a Phensiynau, 2008) ac maent yn helpu i egluro beth mae "sylw dyledus" yn ei olygu yn ymarferol. Y chwe egwyddor allweddol yw:

1. **Ymwybyddiaeth:** Rhaid i benderfynwyr fod yn ymwybodol fod ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i ystyried cydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau.
2. **Prydlondeb:** Rhaid ystyried cydraddoldeb cyn ac yn ystod y broses o wneud penderfyniadau—nid wedi hynny.
3. **Sylwedd, Trylwyredd, a Meddwl Agored:** Rhaid cyflawni'r ddyletswydd o ddifrif, yn drylwyr, a chyda pharodrwydd gwirioneddol gan ystyried yr effeithiau ar gydraddoldeb.
4. **Dylanwad ar Benderfyniad:** Rhaid i'r ddyletswydd cydraddoldeb effeithio ar y penderfyniad terfynol—nid yw'n ddigon ei grybwyll yn unig.
5. **Dim Dirprwyo:** Ni ellir trosglwyddo'r cyfrifoldeb i ystyried cydraddoldeb i rywun arall. Rhaid i'r corff cyhoeddus wneud hynny ei hunan.
6. **Dyletswydd Barhaus a Chadw Cofnodion:** Mae'r ddyletswydd yn un barhaus, ac mae cadw cofnodion yn helpu i ddangos bod cydraddoldeb wedi cael ei ystyried yn briodol.

## Gweithredu a Monitro

Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu i’n helpu i ganolbwyntio ar y gwelliannau y mae angen eu gwneud yn y meysydd a nodwyd yn sgil adborth y cyhoedd a'r asesiad sylfaenol a gynhaliwyd yn haf 2025.

Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei arwain gan y tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant. Bydd y cynnydd a wneir yn cael ei fonitro'n flynyddol a'i adrodd i'r Pwyllgor Craffu perthnasol a'r Cabinet. Bydd adborth pellach gan drigolion yn cael ei ddefnyddio i fireinio a gwella arferion ymgysylltu.

# Cynllun Gweithredu

**1. Cynyddu Tryloywder ac Adborth**

Cyflwyno dolenni adborth cliriach sy'n dangos sut mae mewnbwn y cyhoedd wedi dylanwadu ar benderfyniadau.

Sicrhau eglurder wrth ymgysylltu â'r cyhoedd trwy nodi pa agweddau y gellir ymgynghori yn eu cylch a pha rai nad oes modd ymgynghori yn eu cylch.

Cynnwys mwy o fanylion yn yr ymgynghoriadau er mwyn esbonio'r gwahanol ffactorau y mae angen i'r Cyngor eu hystyried cyn gwneud penderfyniad terfynol.

**2. Gwella Cyfathrebu a Hyrwyddo**

Cynyddu'r defnydd o e-gylchlythyrau a'r cyfryngau cymdeithasol i esbonio gwaith y Cyngor.

Cynyddu nifer yr e-fwletinau ymgysylltu i roi gwybod i bobl pa bryd y bydd ymgynghoriad yn cau.

Trefnu gweithgareddau ymgysylltu sy'n gweddu i argaeledd amrywiol.

Cysylltu â grwpiau rhanddeiliaid i weld a ydynt yn barod i hyrwyddo ein gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori.

Datblygu gweithgareddau Panel Pobl Ceredigion.

**3. Gwella Hygyrchedd a Chynhwysiant**

Cynnig ymgynghoriadau mewn sawl fformat.

Defnyddio lleoliadau niwtral a hybiau cymunedol ar gyfer sesiynau galw heibio.

Datblygu ffyrdd o ymgysylltu'n well â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (pobl ifanc, dynion, pobl o fwyafrif byd-eang/lleiafrifoedd ethnig a grwpiau ffydd).

Sicrhau bod offer digidol yn hygyrch i ddarllenwyr sgrin a defnyddwyr nad ydynt yn defnyddio llwyfannau digidol.

Hyrwyddo rôl y pwyllgorau craffu a phynciau perthnasol i'w trafod.

Adolygu ein protocol deisebau a hyrwyddo'r broses ar gyfer cyflwyno deisebau ac e-ddeisebau.

**4. Symleiddio Deunyddiau Ymgysylltu**

Defnyddio iaith glir, osgoi jargon, a gwneud yn siŵr bod cwestiynau ymgynghori yn caniatáu ymatebion agored.

Datblygu un dudalen ar ein gwefan sy’n cynnwys disgrifiad byr a dolenni i dudalennau defnyddiol eraill sy'n helpu i esbonio swyddogaethau'r Cyngor.

Darparu mwy o hyfforddiant ynglŷn ag ymgysylltu ac ymgynghori i staff y Cyngor.

## 5. Cefnogi Cynghorwyr i Ymgysylltu

Cefnogi cynghorwyr i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Hyrwyddo rolau cynghorwyr a gwybodaeth am sut i fod yn ymgeisydd.

Datblygu canllawiau a hyrwyddo rolau'r Aelodau sy'n Eiriolwyr.

Sicrhau bod deiliad y portffolio perthnasol yn y Cabinet yn gweld cynnwys unrhyw ymgynghoriad cyn iddo gael ei gyhoeddi.

I gael rhagor o wybodaeth am Ymgysylltu a Chyfranogi Cyngor Sir Ceredigion cysylltwch â'r:

Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant
Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

E-bost: partneriaethau@ceredigion.gov.uk
Ffôn: 01545 570881